prosiect wedi'i anelu'n bennaf ar dargedu cymunedau gyda'r bandeang gwaethaf; datblygu dealltwriaeth o ba gymunedau sydd angen bandeang gwell fwyaf, trwy wybodaeth leol, cysylltiadau, arbenigedd digidol a gweithio gyda'n gilydd. Bydd canlyniadau'r prosiect yn rhoi Bwrdd Uchelgais Gogledd Cymru mewn sefyllfa i weithio'n fwy effeithiol gyda Llywodraeth Cymru a'r DU i lunio cynlluniau buddsoddi i'r dyfodol. Buasai Menter Môn yn hoffi cynnal sesiynau galw heibio i gynnig cyngor diduedd a chefnogaeth gyda chysylltedd yn y cymunedau penodol. Maent hefyd yn rhoi cefnogaeth bellach drwy arwain trigolion drwy'r broses o ymgeisio am gyllid, gweithio gyda gweithredwyr i ddatrys problemau lleol, ac egluro datrysiadau all gynnig manteision yn syth a mynediad at wasanaethau, os yn bosibl. Dyddiad y sesiwn galw heibio ydy **Dydd Sadwrn Medi 21ain rhwng 10yb - 3yp** ar gae'r ysgol.

## Diweddariad ar y Cynllun Cymunedol, Awst 2024

Elfen allweddol o ddatblygu Cynllun Cymunedol ar gyfer Dolwyddelan ydy rhaglen ymgynghori, gan gynnwys mynychu digwyddiadau penodol gaiff eu cynnal yn y pentref yn ystod 2024. Cafodd y cyntaf o'r rhain eu cynnal yn yr Ŵyl Wanwyn lle'r oedd Clerc y Cyngor Cymuned, Simon Shutler, Marc Roberts (Ymgynghorydd Cynllun Cymunedol) a Chynghorydd Liz Roberts yn bresennol i siarad gyda thrigolion am y cynllun a'u barn am Ddolwyddelan a'r gymuned ehangach. Cafodd dau brif gwestiwn eu holi yn yr ŵyl; roedd y cyntaf yn gofyn i'r trigolion am eu blaenoriaethau ar gyfer y gymuned, a'r ail yn gofyn iddynt gynnig unrhyw syniadau neu sylwadau cyffredinol ar sut i wella Dolwyddelan. Roedd canlyniadau'r cwestiwn cyntaf yn dangos yn amlwg bod 'Cyfleusterau'r Gymuned' a 'Thai' yn hollbwysig i'r bobl, ynghyd â 'Phlant, pobl ifanc a theuluoedd' ac 'Isadeiledd'. Gyda'r ail gwestiwn, yn ychwanegol at y blaenoriaethau sydd wedi'u nodi uchod, y broblem barhaus oedd yn codi oedd marwolaeth cludiant cyhoeddus a'r angen am wasanaeth mwy dibynadwy, cyson a chyfunedig yn y dyffryn. Mae canlyniadau'r ymgynghoriad hwn bellach wedi'u hymgorffori yn y cynllun, gyda'r cynllun bellach yn cael ei ddrafftio mewn i ddogfen gaiff ei rhannu gyda rhanddeiliaid a thrigolion yng nghanol mis Medi. Fel rhan o hyn, mae bwriad hefyd o gynnal digwyddiad ar y cyd ar yr **21ain o Fedi** yng gae'r ysgol er mwyn hyrwyddo'r Cynllun Cymunedol a Chysylltedd Gwledig.

Mae gwaith arall mae'r Cynllun wedi bod ynghlwm ag o yn cynnwys cais grant llwyddiannus i Barc Cenedlaethol Eryri er mwyn gwella'r rhaglen fuddsoddi yn y fynwent bu i'r Cyngor Cymuned sicrhau cyllid ar ei gyfer yn llwyddiannus ar gyfer y llynedd yn ogystal ag adnewyddu'r geiriad ar y Gofeb Ryfel yn y Senotaff. Mae cyfanswm o £3,800 wedi'i ddenu o Gronfa Cymunedau Eryri, y mae'r Cyngor Cymuned yn hynod ddiolchgar amdano.

## Prosiect Hydrodrydanol

O'r diwedd, mae'r gwaith o ystyried dichonolrwydd adfer y prosiect hydrodrydanol hefyd wedi'i gynnwys yn y Cynllun Cymunedol. Mae'r cynllun yn parhau i gynnig potensial sylweddol ac mae sawl datblygiad wedi bod gyda